

Buddion Lles Cymunedol

7^{fed} rhifyn

CYLCHLYTHYR HYDREF - RHAGFYR 2025



PRYNU'N
GYFRIFOL

Croeso i'r Cylchlythyr Buddion Lles Cymunedol ar gyfer Chwarter 3 Blwyddyn Ariannol 2025/2026

Croeso i rifyn diweddaraf cylchlythyr Ardal, sy'n tynnu sylw at y gwaith hanfodol y mae ein rhanddeiliaid yn ei wneud i sicrhau buddion lles cymunedol ledled Cymru.

Yn y rhifyn hwn, fe welwch erthyglau sy'n ymdrin â digwyddiad Procurex Cymru, trafodaeth ford gron gyntaf Ardal, a diweddariadau o ystod o astudiaethau achos sy'n dangos yr effaith gadarnhaol y mae contractwyr yn ei chael trwy eu hymrwymiad i gyflawni canlyniadau lles cymunedol.

Ers ymuno ag Ardal ychydig fisoedd yn ôl, mae wedi bod yn ysbrydoledig gweld cymaint o fentrau gwych yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu llwyfan gwerthfawr i ddathlu'r llwyddiannau hynny, rhannu straeon cadarnhaol, ac annog eraill i wneud y gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael i adeiladu ar y gwaith pwysig hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd y rhifyn hwn yn addysgiadol ac yn ddiddorol i chi.

Gyda'n gilydd gallwn barhau i weithio i greu newid parhaol a chadarnhaol trwy'r gwaith a wnawn.

**Simon Robison - Rheolwr
Strategaeth a Datblygu**



Y RHIFYN HWN	TUDALEN
Diweddariadau Ardal	2-6
Partneriaeth Tai - Y Fro	7
Partneriaeth Tai - Caerdydd	9
Arena	
Ysgol Uwchradd Willows	10
Ynys Echni	11
Trem y Môr	12
Campws y Tyllgoed	13
Stryd Bute	14
Prosiect Lloneirwg	15
Amddiffyn yr Arfordir	16
Ysgol Gynradd Springwood	17
Academi	18
Adeiladu ar y Safle	
Cyfleoedd Adeiladu yn Butetown	19
Addewid Caerdydd	20



Procurex

Trafodaeth banel wych yn Procurex Cymru gyda:

**Gemma Ellis, Pennaeth Caffael, Cyngor
Caerdydd**

**Liz Lucas MSc, Cyfarwyddwr Trawsnewid,
Digidol a Chaffael Siartredig â FCIPS, Cyngor
Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Scott Parfitt BA (Anrh) MSc. FHEA, MCIPS,
Uwch Ddarlithydd, Prifysgol De Cymru**


**Rhian Rogers, Arweinydd Capasiti a
Galluogrwydd, Llywodraeth Cymru**

**Dr. E. Katharina Sarter, Athro Cynorthwyol,
Sefydliad Warwick ar gyfer Ymchwil Cyflogaeth,
Prifysgol Warwick**

Archwiliodd y panel bwysigrwydd sgiliau addasadwy yn nhirwedd caffael heddiw. Mewn cyfnod lle mae sefydliadau'n llywio dwy gyfundrefn gaffael ochr yn ochr â deddfwriaeth a pholisïau newydd, mae aros yn hyblyg ac yn ymatebol yn hollbwysig.

Tynnodd y drafodaeth sylw hefyd at werth meithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid trwy gyfathrebu wyneb yn wyneb effeithiol, deall eich cadwyn gyflenwi, a sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu o fewn sefydliadau ac ar draws y rhwydwaith caffael ehangach yng Nghymru.

Mae caffael yn ymwneud â mwy na chydymffurfiaeth - mae'n ymwneud â chydweithio, dysgu, a hybu arloesedd ar draws y sector.



ARDAL YN PROCUREX

Procurex Wales 2025 yw'r prif ddigwyddiad undydd blynyddol yng Nghaerdydd, wedi'i gefnogi gan **Lywodraeth Cymru**, gan gysylltu prynwyr y sector cyhoeddus â chyflenwyr y sector preifat. Mae'n meithrin cydweithredu, arloesi a rhwydweithio i reoli dros £10.7 biliwn mewn gwariant blynyddol yn y sector cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd,



Mae'n ddiwrnod prysur yn Procurex Cymru! Mae'r digwyddiad heddiw, sy'n cael ei gynnal yn Arena Utilita, Caerdydd, yn dwyn ynghyd y bobl, y syniadau a'r arloesiadau sy'n gyrru cynnydd ar draws sector cyhoeddus Cymru, sydd werth dros £10.7bn.

Rydym yn falch o fod yn rhan o'r sgwrs am adeiladu tirwedd caffael cyhoeddus fwy cynaliadwy, medrus a blaengar.



Ein tîm priffyrdd yn Procurex

Ein tîm Buddion Lles Cymunedol yn Procurex. Mae ein tîm Buddion Lles Cymunedol yn cefnogi contractwyr i gyflawni **#gwerthcymdeithasol** yng nghontractau caffael Ardal ar draws pedwar awdurdod lleol.



TÎM BUDDION LLES CYMUNEDOL (BLLC)

Llamau

Elusen faenllaw yng Nghymru yw Llamau, sy'n ymroddedig i roi diwedd ar ddigartrefedd i bobl ifanc, menywod a'u teuluoedd.

Braint llwyr oedd cael fy ngwahodd i ddigwyddiad effaith blynyddol Llamau yn y Senedd ym mis Tachwedd. Straeon ysbrydoledig gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ac effaith ystyrion yn y gymuned.

Mae rhai o gontractwyr caffael Ardal eisoes wedi gweithio gyda Llamau a byddwn yn edrych i gynnal adroddiad dros y misoedd nesaf i ddeall yr effaith ac i hyrwyddo mentrau Llamau yn y dyfodol.



#gwerthcymdeithasol

#buddionllescymunedol



TÎM BLIC

Y tîm BLIC a Rhys James o dîm caffael Sir Fynwy.

Roedd y tîm BLIC yn falch iawn o fynd i ddigwyddiad CIPS ynghylch Ymgorffori Gwerth Cymdeithasol mewn Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi

Roedd yn wych bod yn y digwyddiad yn y cnawd gyda phobl o'r un anian sydd â diddordeb cyffredin mewn effaith etifeddol Gwerth Cymdeithasol.



BORD GRON ARDAL: CYSYLLTU BUSNESAU BACH A CHANOLIG LLEOL Â CHYFLEOEDD Y CYNGOR

Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd tîm Ardal drafodaeth ford gron a ddaeth â busnesau bach a chanolig lleol a phrynwyr y Cyngor ynghyd i archwilio sut y gallwn gysylltu busnesau bach yn well â chyfleoedd contract sydd o dan y trothwy.

Cynigiodd y digwyddiad fforwm gwerthfawr ar gyfer deialog agored, gyda chyflenwyr yn rhannu'r heriau y maent yn eu hwynebu – o feithrin perthnasoedd a llywio prosesau tendro i reoli costau a chyfathrebu.

Rydym yn cymryd camau gweithredu ar sail yr adborth:

- Mwy o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr i adeiladu cysylltiadau cadarn
- Dogfennau tendro symlach a chanllawiau ar gyfer BBaCh

- Cyfathrebu gwell trwy LinkedIn, cylchlythyrau, a chynllunio cyfleoedd ymlaen llaw
- Tynnu sylw at straeon llwyddiant BBaCh i newid canfyddiadau o weithio gyda'r Cyngor

Trwy weithio gyda'n gilydd, ein nod yw gwneud proses gaffael y Cyngor yn fwy hygyrch, tryloyw a buddiol i fusnesau lleol.

Clywch fwy gan Gemma Ellis,
Pennaeth Comisiynu a Chaffael
Ardal.

Gemma Ellis
Pennaeth
Comisiynu a
Chaffael Ardal



PARTNERIAETH TAI LOVELL - BRO MORGANNWG

Lovell yn Cyfrannu at Ddawns Haf Ysgol y Deri



Mae Lovell wedi rhoi taleb Boots gwerth £50 i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol y Deri, elusen gofrestredig sy'n cefnogi Ysgol Arbennig y Deri ym Mhenarth, Bro Morgannwg.

Ysgol y Deri yw ysgol anghenion arbennig fwyaf y DU, ac mae wedi cael ei chydabod yn eang am ei gwaith eithriadol, gan gynnwys yn y gyfres ddogfen 'A Special School' ar BBC One Wales. Ers 2008, mae elusen y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi chwarae rhan hanfodol wrth wella bywydau disgyblion trwy ddarparu adnoddau, cyfleoedd a phrofiadau ychwanegol wedi'u teilwra i anghenion amrywiol cymuned yr ysgol.

Bydd y daleb a roddwyd yn cael ei defnyddio fel eitem raffl neu wobr yn Nawns Haf yr ysgol, sy'n cael ei chynnal ar 14 Mehefin 2025. Mae'r digwyddiad yn un o ymdrechion codi arian allweddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, gan helpu i gynhyrchu cefnogaeth sydd fawr ei hangen ar y plant a'r teuluoedd sy'n dibynnu ar wasanaethau'r ysgol.



LOVELL

Ymgysylltu â Champws Cymunedol Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Ar 7 Tachwedd 2025, ymwelodd tîm Lovell â Champws Cymunedol Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Roedd tîm Lovell yn cynnwys Vina Patel, Rheolwr Gwerth Cymdeithasol; Jasmin Grainger, Hyfforddai Rheoli; a Stephen Lane, Rheolwr Hyfforddiant Rhanbarthol. I gyd, treuliodd y tîm bum awr yn y digwyddiad.

Yn ystod yr ymweliad, ymgysylltodd y tîm ag 20 o fyfyrwyr, gan gyflwyno sesiwn ryngweithiol yn canolbwyntio ar yrfaedd yn y diwydiant adeiladu. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am yr ystod eang o rolau sydd ar gael, llwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chyfleoedd dilyniant gyda Lovell ac yn y sector ehangach.

Yn ddiweddarach yn y dydd, cynhaliodd y tîm ffug gyfweiliadau gyda'r myfyrwyr, gan gynnig profiad ymarferol ac adborth wedi'i bersonoli. Helpodd y gweithgaredd hwn i wella sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr, gan gynnwys technegau cyfweiliad, sgiliau cyfathrebu, a hyder.



Adborth gan Emma Meyrick, Pennaeth Daearyddiaeth yng Nghampws Cymunedol Ysgol Uwchradd y Dwyrain:

"Roeddwn i eisiau dweud diolch o galon i chi am eich cefnogaeth anhygoel heddiw. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn rhoi o'ch amser. Roedd yr ymdrech a roddoch o ran eich trefniadau a'ch adnoddau yn rhagorol ac fe helpodd yn fawr i ymgysylltu â'n holl ddysgwyr. Pleser oedd gweld disgyblion yn dod allan o'u cyfweiliadau gyda gwên mor fawr ar eu hwyneb. Roedd eich dull tawel a chalonogol a'r adborth cadarnhaol ac adeiladol a roddoch wedi cael effaith go iawn."

LOVELL



ARENA CAERDYDD: ADEILADU LLEOLIAD A CHYMUNED WELL

Arena a Gwesty Caerdydd



Ers dechrau ar y safle, mae McLaren wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau gyda'r gymuned leol a phrifysgolion, fel yr amlinellir isod:

Ar 21 Hydref, croesawyd 2 grŵp o fyfyrwyr Peirianeg Sifil o Brifysgol Caerdydd i'r safle.

Ym mis Rhagfyr, croesawodd McLaren grŵp o bobl ifanc o EYST i'r safle, ac maent wedi cyfeirio'r rhai a oedd â diddordeb at OCA i ymgymryd â'u hyfforddiant CSCS.



Ym mis Ionawr, bydd gennym unigolyn yn ymgymryd â lleoliad gwaith am wythnos gyda'n Rheolwr lechyd a Diogelwch yn dilyn ei hastudiaethau mewn Rheoli lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, ac un arall yn dechrau lleoliad 2 ddiwrnod yr wythnos i gysylltu â'i hastudiaethau mesur meintiau ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym yn dymuno'n dda i'r ddau ohonynt.

Ers i'r prosiect ddechrau, rydym wedi cael 40 o weithwyr o godau post CF10 ac 11 ar y safle, sy'n cynrychioli 8.6% o'r cyfanswm. Ar hyn o bryd, mae gennym 9 gweithiwr o Grangetown neu Butetown ar y safle.

MCLAREN
Exceptional People, Exceptional Places


ROBERTSON


**CARDIFF
CAERDYDD**

NEWYDDION DA AM ADEILAD NEWYDD YSGOL WILLOWS MORGAN SINDALL

Nadolig yn Willows 2025

Mewn cydweithrediad â'n partneriaid cadwyn gyflenwi, roedd mis Rhagfyr yn fis prysur ond hynod werth chweil, gyda'n timau'n mynd y filltir ychwanegol i gyfrannu rhoddion, gwirfoddoli, dosbarthu anrhegion a hyd yn oed gwisgo fel Siôn Corn i sicrhau bod plant lleol yn ardaloedd y Sblot, Adamsdown a Thremorfa yn y ddinas wedi cael profiad Nadoligaidd.

Roedd ein hapêl anrhegion Nadolig ar y safle yn llwyddiant ysgubol gydag elusennau a sefydliadau yn elwa o'r rhoddion hyn.



Gwella'r ardal lle rydym yn gweithio

Fe wnaeth ein timau wirfoddoli eu hamser trwy blannu dros 1800 o goed yng Nghoedwig Fishpond, mewn cydweithrediad â Choed Caerdydd a'u cenhadaeth 10 mlynedd i wneud Caerdydd yn lle gwyrddach ac iachach i fyw.

Roedd yn fore gwych o fondio fel tîm, gwella lefelau iechyd a lles, cyfanswm o 50,000 o gamau, llawer o fwd, chwerthin ac yn bwysicach fyth, wedi'i bweru gan doesenni a chaneuon Nadolig.



Y Stiwdio Garej yn Eastmoors

Mewn cydweithrediad â Volunteer it Yourself (VIY), partneriaid cadwyn gyflenwi a phobl ifanc lleol, rydym wedi cwblhau gwaith adnewyddu yn y Stiwdio Garej yng Nghanolfan leuenctid Eastmoors yn ddiweddar.

Yn dilyn buddsoddiad ariannol sylweddol gan Morgan Sindall Construction fel rhan o'n hymrwymadau gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r Ysgol Willows newydd, mae'r stiwdio wedi'i thrawsnewid yn ofod modern i greu ardal broffesiynol, greadigol i bobl ifanc archwilio cerddoriaeth a'r cyfryngau. Mae'r trawsnewidiad wedi cryfhau cydlyniant cymunedol ac wedi ysbrydoli balchder ymhlith pobl ifanc a thrigolion.



Cymerodd 21 o bobl ifanc ran yn y prosiect, wedi'u hatgyfeirio gan Ysgol Uwchradd Willows a Gwasanaethau leuenctid Caerdydd, ac roedd 84% ohonynt mewn perygl o ddod yn NEET. O'r 21, enillodd 17 o leiaf un achrediad gan gynnwys:

- Ymddygiad yn y Gwaith
- Peintio ac Addurno
- Gwaith Saer

Ymunodd Elliot Perkins, person ifanc lleol, â'r prosiect ar ôl ymddieithrio rhag addysg. Gwnaeth argraff fawr arnom gyda'i ymroddiad a'i barodrwydd i ddysgu ac, o ganlyniad, mae VIY wedi ei gefnogi i ennill ei gymhwyster CSCS gyda'r nod yn y pen draw iddo weithio ar adeilad new Willows gyda Morgan Sindall a'r isgcontractwyr, Ian Williams Carpentry.

Roedd y prosiect hwn yn llwyddiant ysgubol nid yn unig o ran creu lle newydd ond hefyd o ran yr effaith gadarnhaol y mae wedi'i chael ar y bobl ifanc a gymerodd ran.

**MORGAN
SINDALL**
CONSTRUCTION

Ynys Echni

Dywedodd David Lane 'Nid adeiladu yn unig yw adfer adeilad ar ynys fach, mae'n bos logistaidd.

Mae'n rhaid i bob deunydd, offeryn a llaw fedrus groesi dŵr, gan frwydro yn aml yn erbyn tywydd anrhagweladwy ac opsiynau trafniadaeth cyfyngedig.

Ychwanegwch ystyriaethau amgylcheddol llym a'r her o warchod treftadaeth, ac mae gennych brosiect sy'n mynnu amynedd, manwl gywirdeb a gwytnwch.

Nid ailadeiladu yn unig yw e, mae'n ymwneud â pharchu hanes wrth oresgyn unigedd.'

Roeddwn i'n ddigon ffodus i weithio ar brosiect fel hwn ar Ynys Echni gyda KNOX & WELLS LIMITED a WSP in the UK & Ireland ar gyfer Cyngor Caerdydd.



Dywedodd Richard Wilks o WSP

'Ffantastig ymweld ag Ynys Echni unwaith eto i adolygu'r gwaith yn barod i'w drosglwyddo. Gwaith gwych gan KNOX & WELLS LIMITED ynghyd â'r tîm cyffredinol o WSP in the UK & Ireland, CMS Group a thîm yr ynys i oresgyn y problemau logistaidd penodol a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect hwn.'

Cafwyd rhywfaint o dywydd / awyr ddramatig yn ystod yr ymweliad hefyd!

KNOX & WELLS LTD **WSP**
BUILDING CONTRACTORS • ESTABLISHED 1888



Plannu Coed yn Ffynhonnau Elái, Caerdydd

Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom ddathlu ein trydedd flwyddyn yn olynol o wirfoddoli gyda Choed Caerdydd, gan nodi ein tymor plannu coed mwyaf llwyddiannus hyd yma. Ynghyd â chydweithwyr o Wates, ein partneriaid yn y gadwyn gyflenwi, a Chyngor Caerdydd, fe wnaethom blannu tua 2,550 o goed trawiadol yn Ffynhonnau Elái. Mae hyn yn dod â'n cyfanswm tair blynedd i 5,750 o goed wedi'u plannu mewn tri lleoliad yng Nghaerdydd - a wnaed yn bosibl diolch i ymrwymiad dros 60 o wirfoddolwyr.

Mae ein partneriaeth barhaus gyda Choed Caerdydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad hirdymor i wella amgylchedd naturiol Caerdydd wrth i'r ddinas dyfu. Wrth i ni barhau i adeiladu cartrefi mawr eu hangen, mae'n hanfodol ein bod hefyd yn buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd sy'n cefnogi iechyd, gwytnwch a chynaliadwyedd y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Plannu coed yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi pobl a'r blaned. I Gaerdydd yn arbennig – dinas sy'n ehangu ac sy'n cydbwyso datblygiad â chyfrifoldeb amgylcheddol – mae plannu coed yn chwarae rôl sylfaenol o ran:

1. Cefnogi aer glanach ac iachach
2. Lleihau gwres trefol a gwella gwytnwch hinsawdd
3. Gwella bioamrywiaeth
4. Rheoli perygl llifogydd
5. Cefnogi lles cymunedau lleol
6. Gadael etifeddiaeth barhaol

Edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi Coed Caerdydd dros y blynyddoedd nesaf a gobeithio cyflawni'r nod o blannu 10,000 o goed erbyn 2030.



Wates

CMB - CAMPWS CYMUNEDOL Y TYLLGOED

Fe wnaethom ymuno â Youth Safety First CIC ac Ysgol Uwchradd Cantonian i groesawu grŵp gwych o ferched i fyd adeiladu.

Ar ôl cyflwyniad i lechyd a Diogelwch a thaith o amgylch y safle, fe wnaethom gynnal panel ysbrydoledig o fenywod o bob rhan o'r diwydiant. Fe wnaethon nhw rannu eu teithiau, eu cymwysterau a'u profiadau o weithio mewn sector sy'n wrywaidd yn bennaf, gan ddangos i'r genhedlaeth nesaf beth sy'n bosibl.

Rhoddodd **SEER CONSTRUCTION LIMITED** arddangosiad ymarferol, gan ddangos dwy ffordd wahanol o baltantu i'r merched. Diolch yn fawr iawn i Damien Daniels am wneud hyn yn bosibl!

Roedd yn ddiwrnod gwych yn llawn chwilfrydedd a hyder, a pheirianwyr, rheolwyr prosiectau, tirlunwyr, gweithwyr iechyd a diogelwch, a syrfewyr meintiau y dyfodol, a mwyr.

Grymuso menywod ifanc heddiw i ddod yn arweinwyr y dyfodol ym maes adeiladu!

Ddydd Llun 1 Rhagfyr, croesawodd BESL/CMB Engineering bartneriaid, rhanddeiliaid, athrawon, disgyblion a gwesteion arbennig i'r brif fynedfa, yr atriwm a'r neuadd ar safle adeiladu Campws Cymunedol y Tyllgoed i ddathlu moment arwyddocaol yn nhaith y prosiect uchelgeisiol hwn.

Fel Prif Gcontractwr ar y datblygiad hwn sy'n werth miliynau o bunnoedd, roeddem yn falch o gynnal y digwyddiad carreg filltir hwn, gan nodi'r cynnydd a wnaed ar y safle a'r etifeddiaeth rydym yn gobeithio ei hadeiladu ar gyfer pobl ifanc a chymuned y Tyllgoed a'r ardaloedd cyfagos. Er bod y tywydd yn oer, roedd yr awyrgylch yn gynnes ac yn llawn disgwyliad, gan ddod ag aelodau cabinet Cyngor Caerdydd, Cyngorwyr lleol, Llywodraeth Cymru, cadwyn gyflenwi'r prosiect, yn ogystal ag athrawon, llywodraethwyr a myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Riverbank, Ysgol Woodlands a thair ysgol gynradd y clwstwr – Pentre-baen, Peter Lea ac Ysgol Gynradd y Tyllgoed – at ei gilydd.



Roedd mis Rhagfyr yn fis prysur o ran rhoddion! Rhoddodd BESL focsys detholiad i Glwb Rygbi'r Tyllgoed a Llamau. Rhoddion banc bwyd i Neuadd Llanrhymni ac Eglwys Emmanuel. Rhoddodd BESL nwyddau ymolchi i Hostel Tyndall Court hefyd, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth i Mewn i Waith a Wates.



I gael y newyddion diweddaraf am yr hyn rydym ni'n ei wneud, ewch i:

www.fairwaterbesl.co.uk

MURLUN TŶ NELSON - HALEGROUP

Crëwyd y murlun hwn gan breswylwyr Tŷ Nelson, y bydd llawer ohonynt yn dod yn breswylwyr datblygiad Stryd Bute yn y dyfodol.


Comisiynodd Tanio ddau artist i gyflawni'r prosiect, ac mae un ohonynt yn breswylydd lleol o Butetown.

Gwahoddwyd preswylwyr i rannu straeon personol a ffotograffau, i lywio dyluniad a chynnwys y murlun yn uniongyrchol. Mae'r gwaith celf yn cynnwys un neu ddau o breswylwyr presennol, ochr yn ochr â sawl unigolyn nodedig a fu'n byw yn yr adeilad yn flaenorol ond sydd bellach wedi marw.

Yn ogystal, anogwyd y gymuned ehangach i gymryd rhan trwy ddau ddiwrnod ymgysylltu a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Butetown, gan ddarparu cyfleoedd pellach i rannu straeon a chyfrannu'n uniongyrchol at y broses baentio.

Cwblhawyd y murlun yn Nhŷ Nelson gyda chyfranogiad gweithredol y preswylwyr, ac fe fydd yn cael ei osod yng nghyntedd yr adeilad newydd ar ôl cwblhau'r datblygiad.

Darparwyd cyllid ar gyfer y prosiect drwy Lwfans Cyfoethogi Cymunedau y cynllun, a chyflawnwyd y murlun gan Tanio Cymru.



LOVELL - PROSIECT LLANEIRWG

Creu Newid Ystyrlon Trwy Gefnogaeth a Rhoi Lleol

Cefndir

Cynhaliodd tîm De Cymru a'r Gorllewin ei 30fed diwrnod golff elusennol blynyddol yng Nghaerdydd, gan godi cyfanswm o £14,550. Rhannwyd yr arian yn gyfartal rhwng tair elusen leol: Llamau, Maggie's, a Young Lives vs Cancer Cymru.

Ein gweithgarwch

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan godi £14,550 i'r elusennau a ddewiswyd. Yn ogystal, rhoddodd contractwyr Lovell wyth taleb golff pedair pêl gwerth £1,640 i Maggie's, a rhoddodd un contractwr daleb golff pedair pêl gwerth £200 i Young Lives vs Cancer Cymru. Helpodd y cyfraniadau ychwanegol hyn i gefnogi'r elusennau ymhellach, gan wneud y digwyddiad hyd yn oed yn fwy effeithiol.

Ein heffaith

This support created essential funding that enabled local charities to continue improving the lives of vulnerable communities through the delivery of vital services and support programmes.

Llamau
Maggie's
Young Lives vs Cancer Cymru

Cyfanswm y cyfraniad - £16,390
Oriau Staff Lovell - 60



LOVELL

AMDDIFFYN YR ARFORDIR - KNIGHTS BROWN

Knights Brown yn Dod â Pheirianeg Sifil yn Fyw gyda Mentrau STEM Newydd Cyffrous



Mae'n gyfnod cyffrous yn Knights Brown wrth i'r tîm baratoi i lansio 'Constropolis', gêm fwrdd newydd sbon sydd wedi'i gynllunio i ddod â byd peirianeg sifil oddi ar y dudalen ac yn syth i'r bwrdd. Wedi'i ddatblygu'n fewnol, mae'r gêm yn herio chwaraewyr i ymgymryd â phrosiect adeiladu wrth ddarganfod y nifer o rolau gwahanol sy'n peri i'r diwydiant adeiladu weithio.

Cyn ei lansiad swyddogol, mae Knights Brown yn gwahodd myfyrwyr Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 i fod ymhlith y cyntaf i roi cynnig ar 'Constropolis' gan ei dreialu. Rydym yn annog ysgolion sydd â diddordeb mewn rhoi cipolwg difyr ac ymarferol i'w myfyrwyr ar beirianeg, gwaith tîm a datrys problemau i gysylltu â ni yn: talktous@knightsbrown.co.uk

Ac nid dyna'r cyfan. Mae'r misoedd nesaf yn nodi cam mawr ymlaen i allgymorth STEM Knights Brown, wrth iddynt greu Blwch Tywod Realiti Estynedig trawiadol. Mae'r offeryn dysgu rhyngweithiol hwn yn cyfuno blwch tywod ffisegol ag efelychiad cyfrifiadurol arloesol, gan daflu mapiau topograffig byw, cyfuchlinau, a dŵr yn llifo'n uniongyrchol ar y tywod. Y canlyniad yw profiad ymarferol a chyfareddol sy'n dangos egwyddorion peirianeg ar waith.

Gyda Knights Brown wrthi'n cyflawni prosiect amddiffyn arfordirol yng Nghaerdydd, mae'r Blwch Tywod Realiti Estynedig yn cynnig ffordd bwerus o ddangos sut mae amddiffynfeydd arfordirol yn gweithio a'r rôl hanfodol y mae peirianeg yn ei chwarae wrth amddiffyn trefi a chymunedau rhag effeithiau erydiad a llifogydd.

O ddysgu seiliedig ar gemau i dechnoleg ymdrochol, mae Knights Brown wedi ymrwymo i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr trwy wneud STEM yn gyffrous, yn hygyrch ac yn fythgofiadwy.



YSGOL GYNRADD SPRINGWOOD - GRAHAMS

Ymgysylltu ag Ysgol Gynradd Springwood - Tachwedd 2025


Wrth i'n prosiect gwaith addasu yn Ysgol Gynradd Springwood ddod i ben, manteisiodd y Rheolwr Contractau Phil Briley a Rheolwr y Prosiect Neil McPherson ar y cyfle i greu profiad dysgu i'r plant yn ymwneud â'r gwaith a gwblhawyd hyd yma, a byddai dweud eu bod wedi'u cyffroi yn dweud rhy ychydig!

Dechreuon nhw gyda chyflwyniad byr yn tynnu sylw at beryglon safleoedd adeiladu, ac yna sesiwn holi ac ateb gyflym lle cawsant eu peledu â chwestiynau hwyllog o bob math!

Yna cafodd y plant eu rhannu'n ddau grŵp a'u gwisgo mewn hetiau, menig a dillad llachar, yn barod ar gyfer ein safle adeiladu (gyda'r cwestiynau'n dal i ddod drwy gydol y daith o gwmpas).

Cynhaliwyd y gweithgaredd hwn gyda dau grŵp blwyddyn; ac roedd mor boblogaidd fel bod gan yr ail daith blant ychwanegol a oedd wedi sleifio allan o'u gwersi i ymuno â'r hwyl (daeth eu hathrawon i'w casglu nhw yn y diwedd).

Roedd gwên ar wyneb bob plentyn, a oedd yn hyfryd i'w weld. Cafodd pawb lawer o hwyl, y plant a'r athrawon fel ei gilydd!



ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE (AAS)



Mae Academi Adeiladu ar y Safle (AAS) De-ddwyrain Cymru yn rhaglen hyfforddi, profiad a chyflogaeth ar gyfer gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu. Wedi'i ariannu gan y CITB a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, mae'r AAS yn rhoi cymorth i gontractwyr a cheiswyr gwaith (newydd-ddyfodiaid, dychwelwyr a newidwyr gyrfa) o bob oed ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan baratoi ceiswyr gwaith ar gyfer gwaith yn y sector trwy brofiadau ar safleoedd a hyfforddiant wedi'i ariannu.

Mae ein hymgeiswyr yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y di-waith, yr economaidd anweithgar, y di-waith hirdymor, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg/cyflogaeth/hyfforddiant, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl dros 50 oed, cyn-droseddwyr, pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, a menywod.

Mae gennym brofiad o weithio gyda chwmnïau haen 1, contractwyr, cadwyni cyflenwi ac asiantaethau recriwtio, gan gyflenwi ymgeiswyr dibynadwy ac ymroddedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau Buddion Lles Cymunedol o ran cyflogaeth a sgiliau, ac rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth i'n hymgeiswyr.



Os hoffech chi gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio ymgeiswyr CSCS a/neu gymryd rhan yn ein rhaglen hyfforddi, cysylltwch â ni yn AcademiAdeiladu@caerdydd.gov.uk.

Cyfleoedd Adeiladu yn Butetown – Digwyddiad Adeiladu Llwyddiannus

Ddydd Mercher, 17 Rhagfyr, cynhaliodd Pafiliwn Ieuenctid Butetown ddigwyddiad ysbrydoledig dan arweiniad Academi Adeiladu ar y safle Cyngor Caerdydd. Arddangosodd y sesiwn y cyfoeth o gyfleoedd gwaith sy'n dod i Butetown yn 2026 a thu hwnt, diolch i ddatblygiadau mawr fel yr Arena newydd, gwestai, a chysylltiadau trafndiaeth gwell.

Cafodd trigolion lleol gyfle i gwrdd â chontractwyr ac asiantaethau blaenllaw, gan gynnwys McLaren, Graham/Cledrau Croesi, BMSL (sy'n cynrychioli Goldbeck), Blue Water, a Sphere Solutions. Roedd y cyflwyniadau'n tynnu sylw at brosiectau sydd ar ddod a sut y gall aelodau'r gymuned gymryd rhan.

Denodd y digwyddiad 30 o fynychwyr o gefndiroedd amrywiol – rhai â phrofiad ar y safle a llawer yn awyddus i fynd i mewn i'r sector adeiladu am y tro cyntaf. Cafodd taflenni eu dosbarthu â llaw ar draws Butetown, gan gynnwys mewn siopau, hybiau, a'r pafiliwn, gan sbarduno sgysiau gyda thrigolion lleol. O ran hyrwyddo ar-lein, cafwyd 12 cofrestriad ar Facebook ac Eventbrite, a 1,052 o edrychiadau trwy'r cod QR.

Rhannodd Joe o'r Academi Adeiladu ar y Safle fanylion am gysiau CSCS ac lechyd a Diogelwch i helpu unigolion i fod yn barod ar gyfer y safle. Roedd lleisiau cymunedol yn gryf, gyda chwestiynau'n sicrhau bod cyfleoedd yn parhau i fod yn hygyrch i bobl leol.

Fe wnaeth Sara, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned, atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn, tra bod contractwyr wedi siarad am eu hamcanion gwerth cymdeithasol i gyflogi talent leol.

Ychwanegodd bwyd blasus gan Ayeeyo's gyffyrddiad cynnes at brynawn o rwydweithio a grymuso. Diolch i bawb a fynychodd a chefnogodd y digwyddiad.

Beth sydd Nesaf?

Mae'r digwyddiad hwn yn nodi lansiad Hyb Adeiladu Butetown, sy'n agor ar 14 Ionawr 2026 yn Hyb Butetown. Cadwch lygad am fwy o gyfleoedd i adeiladu eich dyfodol!



Os oes angen cymorth arnoch gyda'r uchod, cysylltwch â clare.humphreys@caerdydd.

ADDEWID CAERDYDD

Mae Addewid Caerdydd yn fenter ledled y ddinas sy'n dod ag ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid cymunedol ynghyd i ysbrydoli a chefnogi plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediad i gyfleoedd ystyrlon sy'n eu paratoi ar gyfer y byd gwaith

Rhaglen Graidd 2025/26 YMUNWCH Â'R ADDEWID NAWR!

Rydym yn gwahodd pob partner i addo eu cefnogaeth i'n Rhaglen Graidd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26. Mae'r ffenestr addewidion ar agor o hyd, ac mae eich ymrwymiad yn ein helpu i ddarparu cyfleoedd ystyrlon, cyson i bobl ifanc ledled Caerdydd..

Beth mae eich Addewid yn ei Gefnogi:


Mae ein Rhaglen Graidd yn cynnwys ystod eang o brosiectau effeithiol, fel: Wythnos Agor Dy Lygaid – gweithdai rhithwir i ddisgyblion cynradd archwilio'r byd gwaith. Profiad Gwaith Gwobr Beth Nesaf? – lleoliadau wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 12 a dysgwyr darpariaeth amgen. Interniaethau â Chymorth - profiad gwaith pwrpasol i ddisgyblion ADY a disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Llunio Fy Stryd / Llunio Fy Ysgol – troi syniadau disgyblion yn realiti adeiledig trwy ddylunio ac adeiladu. Cysylltu Diwydiant a Fforymau Busnes – ymgysylltu a chydweithio ag ysgolion uwchradd, dan arweiniad cyflogwyr. One Million Mentors a Debate Mate – rhaglenni mentora a chyfathrebu i godi dyheadau. Llwyfan Beth Nesaf Caerdydd – hyrwyddo cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ôl-16. Digwyddiadau'r Gwasanaeth Cymorth Ieuencid a Phrosiectau Piblinell Dalent – allgymorth targedig i fynd i'r afael ag anghenion y sector. Llenwch ein ffurflen addewid ar-lein YMA

Dewch i Ni Greu Dyfodol Disgleiriach - Gyda'n Gilydd

Cyswlltwch â: Darren Phillips, Prif Swyddog Datblygu Busnes
addewidcaerdydd@caerdydd.gov.uk
www.addewidcaerdydd.co.uk
www.whatsnextcardiff.co.uk/cy/



DILYNWCH ARDAL AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



ardal

Gwefan:



LinkedIn:

